



Bwyd Da a Symud: Cynllun Gweithredu ar gyfer Caerdydd a Bro Morgannwg (2026-2028)

Llunio'r lleoedd yr ydym
yn **byw**, yn **gweithio** ac yn
chwarae ynddynt.



Cyflwyniad

Gan adeiladu ar Gynllun Gweithredu 2024-2026 ar gyfer Bwyd Da a Symud, mae'r cynllun hwn yn disgrifio lle y byddwn yn canolbwyntio ein hymdrechion ar y cyd dros y ddwy flynedd nesaf (2026-2028). Mae'n seiliedig ar y Fframwaith Bwyd Da a Symud (2024-2030), a'i bedair thema allweddol: Amgylchedd iach, Lleoliadau iach, Pobl iach ac Arwain a Galluogi Newid.

Ein gweledigaeth gyffredin yw: 'Gyda'n gilydd, byddwn yn creu amgylcheddau, lleoliadau a chyfleoedd sy'n galluogi pawb yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg i gael bwyd da ac i symud'.

Ceir cydberchnogaeth o Fwyd Da a Symud, gyda llawer o dimau, sefydliadau, strategaethau a chynlluniau yn hyrwyddo camau gweithredu tuag at gyflawni ein nodau cyffredin, megis ein Partneriaethau Bwyd, Strategaeth Fwyd Cyngor Caerdydd, Strategaeth Fwyd y Fro, Strategaeth Gweithgaredd Corfforol a Chwaraeon Symud Mwy Caerdydd, Strategaeth Hamdden Bro Morgannwg, a llawer mwy.

Mae'r camau gweithredu sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Gweithredu hwn:

- Yn cyd-fynd â'r rhannau o'r system yr ydym wedi'u nodi fel rhai sydd angen eu newid
- Yn cyd-fynd â rhannau o'r system lle y gallwn gael yr effaith fwyaf
- Yn rhai yr ydym wedi ymrwymo i gydweithio arnynt, gan gynyddu ein hymdrechion i'r eithaf
- Yn rhai a fydd yn cefnogi ac yn galluogi newid y system

Yn olaf, drwy amrywiaeth o ddulliau ac ymagweddau, rydym yn anelu at sylwi ar, monitro, gwerthuso a deall y newid yr ydym yn ei ysgogi a'r effaith yr ydym yn ei chael. Bydd y dysgu ar y cyd hwn yn ein galluogi i fod yn ddeinamig a hyblyg. Byddwn yn addasu ein camau gweithredu yn ôl yr angen fel rhan o adolygiad parhaus, yn ogystal â thrwy ddiweddarau ein Cynllun Gweithredu bob dwy flynedd.

Ein ffocws ar gyfer 2026-2028

Amgylchedd Iach					
Ein nod: Creu amgylchedd sy'n galluogi, yn cefnogi ac yn hyrwyddo cyfleoedd i gael bwyd da, ac sy'n ailgyflwyno symud i fywyd bob dydd					
	Blaenoriaeth y system	Y newid yr ydym yn ceisio ei gyflawni	Yr hyn y byddwn yn ei wneud	Beth fydd yn cael ei ystyried yn llwyddiant	Pwy fydd yn arwain yn arwain
1	Polisi a deddfwriaeth i gefnogi ac i alluogi pobl i symud, teithio'n llesol a chael bwyd da	Ymgorffori bwyd da a symud yn y gwaith o ddylunio ein lleoedd, ein mannau agored a'n hadeiladau	Gwneud gwaith cwrpasu ar adnoddau ar gyfer swyddi hybrid iechyd cyhoeddus a chynllunio pwrpasol i wneud cynnydd mewn meysydd mawr eu heffaith a nodwyd a fydd yn ymgorffori Bwyd Da a Symud ymhellach yn nyluniad ein lleoedd, ein mannau agored a'n hadeiladau	- Cytundeb ynghylch meysydd mawr eu heffaith - Swyddi hybrid wedi'u creu a'u llenwi - Cynnydd wedi'i wneud mewn meysydd mawr eu heffaith - Gwneud y mwyafrag o gyfleoedd i ymgorffori Bwyd Da a Symud yn nyluniad ein lleoedd, ein mannau agored a'n hadeiladau	Adran Gynllunio Cyngor Caerdydd, Adran Gynllunio Cyngor Bro Morgannwg gyda Tîm Iechyd Cyhoeddus Caerdydd a'r Fro
2		Lleihau nifer yr hysbysebion ar gyfer bwyd a diod nad ydynt yn iach	Sicrhau bod polisiau Hysbysebu a Nawdd Awdurdodau Lleol yn bwrw gwreiddiau a gwerthuso eu heffaith Archwilio cyfleoedd i ysgogi newid lleol pellach a dechrau eu rhoi ar waith Parhau i rannu'r gwersi a ddysgir yn lleol ac eirioli dros weithredu ar lefel genedlaethol	- Polisiau Hysbysebu a Nawdd Awdurdodau Lleol wedi bwrw gwreiddiau ac yn sail i drefniadau cytundebol - Effaith newid polisi mewn perthynas ag amlygiad i hysbysebion wedi'i werthuso - Cyfleoedd i ysgogi newid lleol pellach wedi'u harchwilio ac wedi dechrau cael eu rhoi ar waith - Gwersi a ddysgwyd yn lleol wedi'u rhannu ag ardaloedd eraill - Cyfleoedd i eirioli dros newid cenedlaethol a fydd yn lleihau hysbysebu bwyd a diod nad ydynt yn iach wedi dechrau cael eu rhoi ar waith	Cyngor Caerdydd, Cyngor Bro Morgannwg, Tîm Iechyd Cyhoeddus Caerdydd a'r Fro

	Blaenoriaeth y system	Y newid yr ydym yn ceisio ei gyflawni	Yr hyn y byddwn yn ei wneud	Beth fydd yn cael ei ystyried yn llwyddiant	Pwy fydd yn arwain
3		Gwneud y mwyaf o asedau cymunedol	Gweithio gyda'r gymuned a phartneriaid allweddol i lunio a chyflwyno rhaglen coginio a maeth a ariennir gan y loteri a buddsoddi mewn mwy o geginau cymunedol ym Mro Morgannwg	- Buddsoddiad wedi'i wneud mewn ceginau cymunedol - Ceginau cymunedol yn cael eu defnyddio gan grwpiau lleol, gan weithio yn unol â'r canllawiau arfer gorau yn y ddogfen <i>Ceginau Rhannu Defnydd Cymunedol: Canllawiau Ymarfer a Phhecyn Cymorth Cymunedol</i> - Rhaglen addysg coginio a maeth Bwyd y Fro a ariennir gan y loteri yn cael ei darparu ledled Bro Morgannwg	Partneriaeth Bwyd y Fro, BIP Caerdydd a'r Fro, Tîm Deieteg Iechyd y Cyhoedd
4	Dylunio/ aiddylunio lleoedd, mannau agored ac adeiladau cymunedol sy'n galluogi pobl i symud a chael bwyd da	Gwneud y mwyaf o asedau cymunedol (gan gynnwys ysgolion, canolfannau hamdden, caeau, parciau, ystafelloedd newid a chanolfannau cymunedol)	Sefydlu tasglu i sicrhau bod yr archwiliad o gyfleusterau yn sail i benderfyniadau ynghylch datblygu/uwchraddio cyfleusterau a chynllunio ar gyfer y dyfodol yng Nghaerdydd Creu cynlluniau ar gyfer cyfleusterau a seilwaith ym Mro Morgannwg sy'n cefnogi cymunedau i fod yn egniol	Caerdydd: - Tasglu wedi'i sefydlu - Gwaith cwmpasu wedi'i wneud ar benderfyniadau ynghylch cyfleusterau (<i>pa sefydliadau sy'n gwneud penderfyniadau, sut ac at ba ddiben</i>) - Argymhellion archwiliad o gyfleusterau wedi'u hystyried ac wedi dechrau cael eu rhoi ar waith - Ystyriaeth wedi'i rhoi i sut y mae'r archwiliad o gyfleusterau'n cael ei gadw'n 'fyw' a/neu ei ehangu Bro Morgannwg: - Archwiliad o gyfleusterau wedi'i gwblhau a'i ddadansoddi - Argymhellion yr archwiliad o gyfleusterau wedi'u hystyried ac wedi dechrau cael eu rhoi ar waith - Y mecanweithiau sydd eu hangen i sicrhau bod yr archwiliad o gyfleusterau yn sail i benderfyniadau ynghylch datblygu/uwchraddio cyfleusterau ym Mro Morgannwg wedi'u hystyried	Cyngor Caerdydd gyda'r Grŵp Partneriaeth Symud Mwy Cyfarwyddiaethau Parciau, Hamdden a Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Cyngor Bro Morgannwg

	Blaenoriaeth y system	Y newid yr ydym yn ceisio ei gyflawni	Yr hyn y byddwn yn ei wneud	Beth fydd yn cael ei ystyried yn llwyddiant	Pwy fydd yn arwain
				- Cyfleoedd i eirioli dros bwysigrwydd cyfleusterau i gefnogi cymunedau i fod yn egniïol wedi dechrau cael eu rhoi ar waith - Ystyriaeth wedi'i rhoi i sut y mae'r archwiliad o gyfleusterau'n cael ei gadw'n 'fyw' a/neu ei ehangu	
5	Seilwaith teithio llesol integredig a thrafnidiaeth gyhoeddus hygyrch a dibynadwy	Cynyddu argaeledd, ansawdd a'r defnydd o deithio llesol (cerdded, olwyno, beicio, trafndiaeth gyhoeddus)	Parhau i gydweithio i ddylunio cynlluniau teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus o ansawdd uchel	- Cynlluniau teithio llesol wedi'u datblygu gan ystyried yr effeithiau ar anghydraddoldebau ac iechyd - Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gynyddu argaeledd, ansawdd a'r defnydd o ddulliau teithio iach - Dewisiadau teithio llesol yng Nghaerdydd ar gyfer cludiant o'r cartref i'r ysgol yn cael eu defnyddio'n amlach	Timau Trafnidiaeth Cynghorau Caerdydd a Bro Morgannwg, Tîm Iechyd Cyhoeddus Caerdydd a'r Fro a Gweithredwyr Trafnidiaeth
6	Mannau cyhoeddus hygyrch, cynhwysol a diogel er mwyn i bobl allu symud, chwarae a thyfu bwyd	Gwella mynediad at fwyd da	Cynyddu cynhyrchiant bwyd lleol yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg drwy: Ganfod tir a chyfleoedd addas ar gyfer tyfu bwyd cymunedol a masnachol yng Nghaerdydd	Caerdydd: - Prosiect peilot Tyfu Cymunedol Cyngor Caerdydd wedi'i gwblhau a'i werthuso - Strategaeth Rhandiroedd newydd wedi'i datblygu - Cynllun Tyfu Cymunedol ar waith, gan gynnwys ystod ehangach o safleoedd tyfu posibl ledled Caerdydd gyda Strategaeth a darpariaeth Rhandiroedd wedi'i ystyried - Opsiynau wedi'u harchwilio i sicrhau bod cynnig Edible Cardiff yn gynaliadwy yn yr hirdymor a datrysiadau wedi dechrau cael eu rhoi ar waith	Cyngor Caerdydd (drwy'r Strategaeth Fwyd) a Phartneriaeth Bwyd Caerdydd

	Blaenoriaeth y system	Y newid yr ydym yn ceisio ei gyflawni	Yr hyn y byddwn yn ei wneud	Beth fydd yn cael ei ystyried yn llwyddiant	Pwy fydd yn arwain
			Adeiladu ar ganfyddiadau Adroddiad Tyfu Bwyd Cymunedol y Fro (2025) gan fynd i'r afael â'r rhwystrau a'r anghenion a nodwyd	Bro Morgannwg: - Mwy o bobl yn cael eu cefnogi i gymryd rhan mewn mannau tyfu cymunedol lleol - Busnesau garddwriaethol masnachol lleol yn sicrhau hyfywedd ac wedi'u cysylltu â chymunedau lleol - Swm y llysiau a gynhyrchir drwy brosiectau garddwriaethol (tyfu bwyd) wedi cynyddu	Partneriaeth Bwyd y Fro
7	Polisi a deddfwriaeth i gefnogi a galluogi chwarae	Diogelu a hyrwyddo chwarae plant	Datblygu ac ymgorffori 'gweledigaeth ar gyfer chwarae' yng Nghaerdydd i sicrhau bod gan bob plentyn amser, lle a chaniatâd i chwarae, bob dydd, a lle mae chwarae'n cael ei werthfawrogi gan bawb fel rhywbeth hanfodol ar gyfer plentynod iach a bywyd cymunedol Datblygu Strategaeth Chwarae ar gyfer Bro Morgannwg i ddarparu gweledigaeth gyffredin ar gyfer chwarae, gan ganolbwyntio ar yr hyn sy'n dylanwadu ar gyfleoedd chwarae beunyddiol plant a phobl ifanc (meysydd chwarae,	Caerdydd: 'Gweledigaeth ar gyfer Chwarae' wedi'i mabwysiadu drwy gymeradwyaeth y Cabinet - Cynllun Cyfathrebu wedi'i ddatblygu a'i roi ar waith - Cyfrifoldeb a rennir dros chwarae ar draws adrannau'r cyngor wedi'i gryfhau 'Polisi Chwarae' wedi'i ymgorffori yn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd - Cynnydd parhaus wedi'i wneud o ran y Cynllun Gweithredu Digonolrwydd Chwarae Bro Morgannwg: - Dull wedi'i gytuno i ddatblygu Strategaeth Chwarae a'r strategaeth derfynol wedi'i chymeradwyo gan Uwch Dim Arwain Cyngor Bro Morgannwg	Tîm Caerdydd Dinas sy'n Dda i Blant a Gwasanaethau Chwarae Plant Cyngor Caerdydd Gwasanaethau Parciau a Hamdden Cyngor Bro Morgannwg

	Blaenoriaeth y system	Y newid yr ydym yn ceisio ei gyflawni	Yr hyn y byddwn yn ei wneud	Beth fydd yn cael ei ystyried yn llwyddiant	Pwy fydd yn arwain
			parciau, strydoedd, llwybrau, lleoliadau fel ysgolion, mannau cymunedol, tai, cynllunio, teithio llesol a darpariaeth chwarae)		
8	Mannau cyhoeddus hygyrch, cynhwysol a diogel er mwyn i bobl allu symud, chwarae a thyfu bwyd	Parciau a mannau agored cynhwysol a diogel sy'n galluogi pobl i fod yn egniol	Datblygu Strategaeth Meysydd Chwarae ar gyfer Caerdydd fel bod pob maes chwarae yn ddiddorol, yn gynhwysol, o safon uchel ac yn gysylltiedig, gan alluogi plant, pobl ifanc a theuluoedd i symud	Caerdydd: - Strategaeth Meysydd Chwarae wedi'i chyd-ddatblygu gyda rhanddeiliaid, wedi'i chymeradwyo gan y Cabinet ac wedi dechrau cael ei rhoi ar waith - Argymhellion o'r Asesiad Digonolrwydd Chwarae ac 'Ymchwil HerParks' wedi'u mabwysiadu a'u hystyried o fewn y Strategaeth Meysydd Chwarae	Gwasanaeth Parciau Cyngor Caerdydd
9	Amgylchedd bwyd sy'n cefnogi ac yn galluogi pawb i gael bwyd da	Gwella argaeledd bwyd da	Gwella argaeledd bwyd iach a chynaliadwy a gynigir ar draws safleoedd a reolir ar gyfer staff ac ymwelwyr	Caerdydd: - Y bwyd sydd ar gael ar hyn o bryd drwy safleoedd a reolir gan Gyngor Caerdydd wedi'i adolygu drwy lens bwyd iach, carbon isel - Y bwyd sydd ar gael drwy safleoedd a reolir gan Gyngor Caerdydd wedi'i fapio (<i>e.e. ysgolion, Ffreutur Neuadd y Sir, Caffi'r Castell, Hybiau Cymunedol, Canolfannau Dydd ac ati</i>). - Effaith bwydlenni gwasanaethau arlwyo ar iechyd ac allyriadau carbon wedi'u hasesu - Targed wedi'i gytuno a map trywydd wedi'i lunio ar gyfer sut i leihau bwydydd â lefelau uchel o Garbon, Braster, Halen a Siwgr sydd ar fwydlenni	Cyngor Caerdydd (drwy'r Strategaeth Fwyd)

	Blaenoriaeth y system	Y newid yr ydym yn ceisio ei gyflawni	Yr hyn y byddwn yn ei wneud	Beth fydd yn cael ei ystyried yn llwyddiant	Pwy fydd yn arwain
9				- Gwaith cwmpasu wedi'i wneud ar gyfleoedd i ddylanwadu ar Fframwaith Caffael Bwyd Caerffili a'i ddiweddarau a'r rheini wedi dechrau cael eu rhoi ar waith BIP Caerdydd a'r Fro: - Cydymffurfiaeth â Pholisi Bwyta'n Iach mewn Bwyta'i ac Allfeydd Manwerthu Ysbytai BIP Caerdydd a'r Fro - Dewisiadau bwyd a diod iach sydd ar gael ar safleoedd y BIP i staff, cleifion ac ymwelwyr yn parhau i wella	Grŵp Llywio Bwyta'n Iach mewn Bwyta'i ac Allfeydd Manwerthu Ysbytai BIP Caerdydd a'r Fro

Lleoliadau Iach

Ein nod: Llunio ein hysgolion, ein gweithleoedd a'n lleoliadau cymunedol gan greu cyfleoedd sy'n galluogi, yn cefnogi ac yn hyrwyddo bwyd da a symud

	Blaenoriaeth y system	Y newid yr ydym yn ceisio ei gyflawni	Yr hyn y byddwn yn ei wneud	Beth fydd yn cael ei ystyried yn llwyddiant	Pwy fydd yn arwain
10	Polisiâu, strwythurau a chymhellion yn ein lleoliadau yn galluogi pobl i symud a chael bwyd da	Gwneud y mwyaf o botensial y diwrnod ysgol i alluogi plant a phobl ifanc i fod yn egniol, cymryd rhan mewn chwaraeon, a chael mynediad at fwyd da, ei brofi a dysgu amdano	Deall sbardunau, blaenoriaethau, pwysau ac anghenion yn well o safbwyntiau ysgolion (<i>penaethiaid, staff, disgyblion, llywodraethwyr, rhieni a chymuned ehangach yr ysgol</i>) Deall y sbardunau strategol sy'n effeithio ar fwyd da a symud mewn ysgolion a gweithio gyda'n gilydd i ddylanwadu arnynt neu sicrhau cyfatebiaeth rhyngddynt er mwyn ysgogi newid	Dealltwriaeth gyffredin o: - Sut y mae dull ysgol gyfan yn cael ei roi ar waith yn ymarferol - Sut y mae penderfyniadau allweddol sy'n ymwneud â bwyd da a symud yn cael eu gwneud a'u rhoi ar waith - Ystyriaethau'n ymwneud â chyfleusterau a seilwaith - Amrywiaeth o ddarparwyr yn cynnig gwasanaethau/gwybodaeth i ysgolion - Ffactorau sy'n herio ac yn galluogi newid - Pwyntiau dylanwadu strategol wedi'u nodi a'u deall - Timau a sefydliadau perthnasol yn ymgysylltu ac yn sbarduno newid - Cyfleoedd i ddylanwadu neu sicrhau cyfatebiaeth wedi dechrau cael eu rhoi ar waith - Cyfleoedd i gysoni cyllid ac adnoddau i gefnogi nodau cyffredin ar gyfer bwyd da a symud wedi'u harchwilio ac wedi dechrau cael eu rhoi ar waith	Gweithgor Ysgolion Bwyd Da a Symud gydag ysgolion Grŵp Ysgolion Bwyd Da a Symud gyda Thimau Addysg

	Blaenoriaeth y system	Y newid yr ydym yn ceisio ei gyflawni	Yr hyn y byddwn yn ei wneud	Beth fydd yn cael ei ystyried yn llwyddiant	Pwy fydd yn arwain
			Hyrwyddo mwy o gydgyssylltu a chysondeb rhwng y timau a'r sefydliadau sy'n ymwneud â chefnogi a galluogi ysgolion i fabwysiadu dulliau ysgol gyfan o ymdrin â gweithgaredd corfforol a bwyd, er mwyn cynyddu ymdrechion ar y cyd i'r eithaf	- Dull mwy cydlynol rhwng timau a sefydliadau - Naratif cyffredin sy'n disgrifio'r hyn rydym yn ei wneud a pham wedi'i ddatblygu - Dealltwriaeth gyffredin a defnydd ar y cyd o'r data sydd ar gael i ddylanwadu ar yr hyn a wnawn a sut rydym yn ei wneud	Grŵp Ysgolion Bwyd Da a Symud
11		Gwneud y mwyaf o botensial y diwrnod ysgol i alluogi plant a phobl ifanc i fod yn egniol, cymryd rhan mewn chwaraeon, a chael mynediad at fwyd da, ei brofi a dysgu amdano	Parhau i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o'r ffactorau sy'n effeithio ar amseriad diwrnod mewn ysgol uwchradd (gan gynnwys egwyliau cinio) a'r effaith ar gyfleoedd ar gyfer bwyd da, symud, chwarae a chwaraeon	Rhannu'r hyn a ddysgwyd ynghylch: - Y ffactorau sy'n effeithio ar amseriad y diwrnod mewn ysgolion uwchradd - Yr effaith ar gyfleoedd ar gyfer bwyd da a symud - Yr heriau a'r galluogwyr - Ffyrdd o wneud y mwyaf o'r cyfleoedd ar gyfer bwyd da a symud drwy gydol y diwrnod ysgol wedi'u nodi ac wedi dechrau cael eu rhoi ar waith	Gweithgor Ysgolion Bwyd Da a Symud gydag ysgolion
12	Polisiâu, strwythurau a chymhellion yn ein lleoliadau yn galluogi pobl i symud a chael bwyd da		Datblygu Strategaeth Arlwygo 3 blynedd ar gyfer gwasanaethau addysg ar draws ysgolion a lleoliadau addysg Caerdydd	Caerdydd - Bwydlenni ar draws pob safle yn cydymffurfio'n llawn â rheoliadau newydd <i>Bwyta'n lach mewn Ysgolion 2025</i> - Y nifer sy'n manteisio ar brydau ysgol, yn enwedig mewn cymunedau difreintiedig wedi cynyddu - Cyfleoedd i wella llythrennedd bwyd mewn cydweithrediad ag ysgolion, Gwasanaeth Arlwygo Addysg a BIP Caerdydd a'r Fro wedi'u cynyddu i'r eithaf - Cyfranogiad ysgolion yn y cynllun Bwyd a Hwyl wedi cynyddu	Gwasanaeth Arlwygo Addysg Cyngor Caerdydd gydag ysgolion

	Blaenoriaeth y system	Y newid yr ydym yn ceisio ei gyflawni	Yr hyn y byddwn yn ei wneud	Beth fydd yn cael ei ystyried yn llwyddiant	Pwy fydd yn arwain
			Deall yn well y rhwystrau i ddatblygu perthnasoedd cadarnhaol gyda bwyd, a gweithio gydag ysgolion ym Mro Morgannwg i greu amgylcheddau a dulliau sy'n cefnogi profiadau bwyd iach, pleserus a chynhwysol i ddisgyblion	Bro Morgannwg: - Dealltwriaeth gyffredin o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar berthynas disgyblion â bwyd - Cyfleoedd i adolygu a datblygu dyluniad bwydlenni wedi'u harchwilio ac wedi dechrau cael eu rhoi ar waith - Grwpiau cyngor ysgol wedi'u cynnwys er mwyn dylanwadu ar ddulliau gweithredu a phenderfyniadau - Sesiynau blasu yn cael eu defnyddio i helpu disgyblion i ddod yn fwy cyfarwydd â mathau o fwyd, i gynyddu eu hyder ac i ymgysylltu'n fwy â darpariaeth bwyd	Big Fresh Bro Morgannwg gyda Chyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau Cyngor Bro Morgannwg
13	Gwybodaeth, sgiliau a hyder y gweithlu i; ddysgu, ymgorffori, cyfeirio a bod yn fodel rôl	Gwneud y mwyaf o botensial lleoliadau blynyddoedd cynnar i alluogi pobl ifanc i fod yn gorfforol egniol a chael mynediad at fwyd da	Deall y sbardunau strategol sy'n effeithio ar chwarae, llythrennedd corfforol a bwyd da o fewn darpariaeth blynyddoedd cynnar, gan gydweithio i ddylanwadu arnynt a/neu eu cysoni i ysgogi newid	- Pwyntiau dylanwadu strategol wedi'u nodi a'u deall - Naratif cyffredin sy'n disgrifio'r hyn y byddwn yn ei wneud a pham wedi'i ddatblygu - Timau a sefydliadau perthnasol yn ymgysylltu ac yn sbarduno newid - Cyfleoedd i ddylanwadu neu sicrhau cyfatebiaeth wedi dechrau cael eu rhoi ar waith	Tîm Iechyd Cyhoeddus Caerdydd a'r Fro gyda Chwaraeon Met Caerdydd, Tîm Byw'n Iach y Fro (gweithgaredd corfforol, chwaraeon a chwarae), Tîm Deieteg Iechyd Cyhoeddus Caerdydd a'r Fro, timau Gofal Plant y Cyngor, timau Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy

	Blaenoriaeth y system	Y newid yr ydym yn ceisio ei gyflawni	Yr hyn y byddwn yn ei wneud	Beth fydd yn cael ei ystyried yn llwyddiant	Pwy fydd yn arwain
14	Polisiâu, strwythurau a chymhellion yn ein lleoliadau yn galluogi pobl i symud a chael bwyd da	Ailgyflwyno symud i'r diwrnod gwaith	Deall a datblygu cyfleoedd i ymgorffori symud, gweithgaredd corfforol, a lleihau'r amser pan fydd pobl yn eisteddog yn ystod y diwrnod gwaith	- Gwaith cwmpasu wedi'i wneud ar gymorth, mewnwelediad a'r cyd-destun lleol presennol - Cyfleoedd wedi'u nodi (yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector) ac wedi dechrau cael eu rhoi ar waith	Tîm Iechyd Cyhoeddus Caerdydd a'r Fro gyda thimau'r Gweithlu a Datblygu Sefydliadol

Pobl Iach

Ein nod: Galluogi cyfleoedd hygyrch a fforddiadwy i bobl gael bwyd da a symud mewn ffordd sy'n deg ac yn gynhwysol i bawb drwy gydol eu hoes

	Blaenoriaeth y system	Y newid yr ydym yn ceisio ei gyflawni	Yr hyn y byddwn yn ei wneud	Beth fydd yn cael ei ystyried yn llwyddiant	Pwy fydd yn arwain
15	Hygyrch a fforddiadwy; gweithgareddau, rhaglenni a gwasanaethau sy'n cefnogi ac yn galluogi pobl i symud a chael bwyd da	Gwella mynediad at fwyd da	Gwella mynediad at fwyd da a gwaith er mwyn mynd i'r afael ag achosion sylfaenol tlodi bwyd drwy: - Rhwydwaith Bwyd Caerdydd - Grŵp Vale Food Forward	Caerdydd: - Gwell cysylltiad rhwng rhanddeiliaid sy'n gweithio ar ddiffyg diogeledd bwyd - Mynd i'r afael ag achosion sylfaenol tlodi drwy o leiaf un ateb mewn cydweithrediad â Chyngor Caerdydd - Cynllun gweithredu cydweithredol wedi'i ddatblygu gyda Chydweithfa Bwyd Cymunedol Caerdydd, i gefnogi hirhoedledd prosiectau cymunedol Bro Morgannwg: - Gwell cysylltiad rhwng rhanddeiliaid sy'n gweithio ar ddiffyg diogeledd bwyd - Mynd i'r afael ag achosion sylfaenol tlodi drwy atebion cydweithredol gan gynnwys archwilio dull arian parod yn gyntaf ar gyfer diffyg diogeledd bwyd - Prosiectau bwyd cymunedol yn cydweithio i ddod o hyd i fwyd gwell a chefnogi hirhoedledd	Partneriaeth Bwyd Caerdydd Partneriaeth Bwyd y Fro

	Blaenoriaeth y system	Y newid yr ydym yn ceisio ei gyflawni	Yr hyn y byddwn yn ei wneud	Beth fydd yn cael ei ystyried yn llwyddiant	Pwy fydd yn arwain
16	Hygyrch a fforddiadwy; gweithgareddau, rhaglenni a gwasanaethau sy'n cefnogi ac yn galluogi pobl i symud a chael bwyd da	Gwneud y gorau o rôl clybiau chwaraeon a darparwyr gweithgaredd corfforol i ddiwallu anghenion lleol	Gweithio gyda Chyrff Llywodraethu Cenedlaethol a chlybiau proffesiynol i ddatblygu cynllun strategol ar y cyd ar gyfer Caerdydd Gweithio gyda Chyrff Llywodraethu Cenedlaethol, clybiau chwaraeon lleol, darparwyr gweithgaredd corfforol a grwpiau cymunedol nad ydynt yn ymwneud â chwaraeon i ddarparu cyfleoedd sy'n diwallu anghenion cymunedau ym Mro Morgannwg	Caerdydd: - Cynllun strategol wedi'i ddatblygu ar y cyd â Chyrff Llywodraethu Cenedlaethol a chlybiau proffesiynol - Clybiau ac aelodaeth wedi'u mapio er mwyn deall y sefyllfa leol yn well - Dangosfwrdd data wedi'i ddatblygu i fod yn sail i benderfyniadau a thwf - Cynyddu proffil ac effaith clybiau proffesiynol yng Nghaerdydd i'r eithaf gan ysbrydoli cymunedau a datgloi adnoddau ychwanegol - Gwaith cwmpasu wedi'i wneud ar y rôl y gall llysgenhadon chwaraeon proffil uchel ei chwarae Bro Morgannwg: - Dealltwriaeth gyffredin o'r sefyllfa leol a mewnwleidiad wedi'i ddatblygu a'i ddefnyddio i fod yn sail i gyfleoedd ac i ddylanwadu arnynt - Darparwyr (Cyrff Llywodraethu Cenedlaethol, clybiau chwaraeon lleol, darparwyr gweithgaredd corfforol a grwpiau cymunedol nad ydynt yn ymwneud â chwaraeon) wedi ymrwymo i ddull ar y cyd o ddatblygu cyfleoedd, gan gynnwys rhannu adnoddau, gwybodaeth, arbenigedd ac osgoi dyblygu - Grwpiau cymunedol nad ydynt yn grwpiau chwaraeon wedi'u grymuso i ddarparu a/neu gynnal cyfleoedd gweithgaredd corfforol	Grŵp Partneriaeth Symud Mwy Tîm Byw'n lach y Fro (gweithgaredd corfforol, chwaraeon a chwarae)

	Blaenoriaeth y system	Y newid yr ydym yn ceisio ei gyflawni	Yr hyn y byddwn yn ei wneud	Beth fydd yn cael ei ystyried yn llwyddiant	Pwy fydd yn arwain
17	Hygyrch a fforddiadwy; gweithgareddau, rhaglenni a gwasanaethau sy'n cefnogi ac yn galluogi pobl i symud a chael bwyd da	Cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer sgysiau iach i'r eithaf	Archwilio'r cyfleoedd a'r heriau i alluogi gweithwyr gofal iechyd y blynyddoedd cynnar i gael 'sgysiau iach' gyda theuluoedd, darparu cefnogaeth a'u cyfeirio at wasanaethau eraill	- Hyfforddiant/adnoddau cyfredol a chyfleoedd am sgysiau iach wedi'u mapio - Heriau a galluogwyr wedi'u nodi a'u deall a chyfleoedd i fynd i'r afael â nhw wedi dechrau cael eu rhoi ar waith - Cyfleoedd i gael sgysiau iach wedi'u cryfhau	Tîm Iechyd Cyhoeddus Caerdydd a'r Fro gyda gweithlu Gofal Iechyd y blynyddoedd cynnar, Tîm Deieteg Iechyd Cyhoeddus Caerdydd a'r Fro, Chwaraeon Met Caerdydd, Tîm Byw'n Iach y Fro (gweithgaredd corfforol, chwaraeon a chwarae)
18		Cysylltiad gwell gan bobl â chyfleoedd hygyrch a fforddiadwy i wneud gweithgaredd corfforol	Gweithio gyda'n gilydd i ymgorffori'r Offeryn Canfod Gweithgareddau ar draws gwasanaethau, cymunedau ac fel rhan o sgysiau iach yng Nghaerdydd fel ei fod yn dod yn brif offeryn ar gyfer cysylltu pobl â chyfleoedd lleol i wneud gweithgaredd corfforol. Archwilio'r posibilrwydd o fabwysiadu Offeryn Canfod Gweithgareddau Lleol i gysylltu trigolion ac ymarferwyr yn well â chyfleoedd gweithgaredd corfforol lleol priodol ym Mro Morgannwg	Caerdydd: - Darparwyr yn ymgysylltu'n weithredol - Cyfleuster canfod gweithgareddau yn cael ei hyrwyddo a'i ddefnyddio'n eang gan ddarparwyr, cysylltwyr a'r cyhoedd - Darlun cywir a chyfredol o gyfleoedd lleol. - Bylchau yn y ddarpariaeth wedi'u nodi ac yn cael eu defnyddio i lywio gwaith cynllunio ar gyfer y dyfodol - Cyfleoedd i sicrhau cysondeb rhanbarthol/cenedlaethol wedi'u harchwilio Bro Morgannwg: - Ymchwil wedi'i wneud i ystod o fecanweithiau a'r un priodol wedi dechrau cael ei roi ar waith a'i hyrwyddo - Darlun cywir a chyfoes o gyfleoedd lleol ar gael i breswylwyr a gweithwyr proffesiynol ei weld	Grŵp Partneriaeth Symud Mwy Bro Morgannwg: Tîm Byw'n Iach (gweithgaredd corfforol, chwaraeon a chwarae) gydag arweinwyr gwasanaethau, darparwyr a chysylltwyr

	Blaenoriaeth y system	Y newid yr ydym yn ceisio ei gyflawni	Yr hyn y byddwn yn ei wneud	Beth fydd yn cael ei ystyried yn llwyddiant	Pwy fydd yn arwain
19	Gwybodaeth, sgiliau a hyder y gweithlu a gwirfoddolwyr i; rannu, cefnogi, cyfeirio a bod yn fodel rôl	Cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer sgysiau iach i'r eithaf	Datblygu a chyflwyno hyfforddiant pwrpasol sy'n canolbwyntio ar weithgaredd corfforol	- Hyfforddiant/adnoddau cyfredol a chyfleoedd am sgysiau iach wedi'u mapio - Pecyn hyfforddi gweithgaredd corfforol gwell wedi'i ddatblygu ar y cyd (i ategu Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif) - Hyfforddiant wedi'i dargedu yn cael ei ddarparu (e.e. partneriaid presgripsiynu cymdeithasol, cysylltwyr a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol) - Gwybodaeth a negeseuon cyson wedi'u hymgorffori ar draws hyfforddiant arall ar sgysiau iach	Chwaraeon Met Caerdydd gyda Thîm Iechyd Cyhoeddus Caerdydd a'r Fro a Thîm Byw'n Iach y Fro (gweithgaredd corfforol, chwaraeon a chwarae)
20	Gwybodaeth, sgiliau a hyder y gweithlu a gwirfoddolwyr i; rannu, cefnogi, cyfeirio a bod yn fodel rôl	Cryfhau ac ehangu'r gweithlu gwirfoddolwyr a hyfforddwyr chwaraeon	Gwella'r cysylltedd a'r gyfatebiaeth rhwng llwybrau gwirfoddoli a hyfforddi chwaraeon a gweithgaredd corfforol (o bobl ifanc i'r to hŷn) er mwyn mynd i'r afael â bylchau, lleihau dyblygu a chynyddu cyfleoedd	Caerdydd: - Dealltwriaeth gyffredin o lwybrau cyfredol wedi'i datblygu - Gwaith cwmpasu wedi'i wneud mewn perthynas â chyfleoedd i wella cysylltiad ac aliniad a'r rheini wedi dechrau cael eu rhoi ar waith - Cydweithio wedi'i gryfhau drwy fentrau ar y cyd, rhannu adnoddau a llai o ddyblygu - Dulliau cynhwysol o recriwtio gweithlu hyfforddi a gwirfoddoli amrywiol ar gyfer chwaraeon a gweithgaredd corfforol wedi bwrw gwreiddiau Bro Morgannwg: - Llwybr Llysgenhadon Ifanc wedi'i gryfhau a mewnbwn gan Rwydwaith Llysgenhadon Ifanc Benywaidd wedi'i gynnwys - Dulliau cynhwysol o recriwtio gweithlu hyfforddiant a gwirfoddoli amrywiol ar gyfer chwaraeon a gweithgaredd corfforol wedi bwrw gwreiddiau	Grŵp Partneriaeth Symud Mwy Tîm Byw'n Iach y Fro (gweithgaredd corfforol, chwaraeon a chwarae)

	Blaenoriaeth y system	Y newid yr ydym yn ceisio ei gyflawni	Yr hyn y byddwn yn ei wneud	Beth fydd yn cael ei ystyried yn llwyddiant	Pwy fydd yn arwain
23	Normau cymdeithasol, diwylliant, a gwerthoedd cymunedol	Cryfhau asedau cymunedol yn y cymunedau sydd â'r angen mwyaf	Gweithio gyda'n gilydd i ddeall heriau, asedau a galluogwyr cymunedol, cyd-greu atebion a chefnogi camau gweithredu wedi'u harwain yn lleol	- Dull mwy cysylltiedig a chydweithredol o gyflawni nodau cyffredin ar gyfer Bwyd Da a Symud - Mewnwelediad a gwersi a ddysgwyd gan gymunedau yn dylanwadu ar yr hyn a wnawn i fynd i'r afael â dylanwadau ehangach a sut rydym yn gwneud hynny - Llwybrau a mecanweithiau cliriach i oresgyn heriau yn y gymuned a'r trydydd sector	Cyngor Trydydd Sector Caerdydd, Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg, a grwpiau'r Trydydd Sector, Partneriaeth Bwyd y Fro, Bwyd Caerdydd gyda Thîm Iechyd Cyhoeddus Caerdydd a'r Fro
24	Meithrin gallu sy'n targedu cymorth i gyd-fynd ag anghenion pobl a chymunedau	Cryfhau asedau cymunedol yn y cymunedau sydd â'r angen mwyaf	Sicrhau bod camau gweithredu cymunedol yn canolbwyntio ar y rhai sydd eu hangen fwyaf	Meithrin dealltwriaeth o'r gymuned er mwyn: - Sicrhau bod amrywiaeth o leisiau'n cael eu clywed - Deall asedau cymunedol yn well - Dylanwadu ar a sbarduno camau gweithredu cymunedol - Dylanwadu ar a sbarduno camau gweithredu sy'n mynd i'r afael â dylanwadau ehangach - Arweinwyr cymunedol wedi'u nodi a'u cefnogi - Effaith camau gweithredu cymunedol wedi ei deall ac yn cael ei defnyddio i esblygu'r gwaith - Gwersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu	Cyngor Trydydd Sector Caerdydd, Gwasanaeth Gwirfoddol y Fro, Cyngor Caerdydd, Cyngor Bro Morgannwg, Tîm Byw'n Iach y Fro (gweithgaredd corfforol, chwaraeon a chwarae), BIP Caerdydd a'r Fro, Chwaraeon Met Caerdydd, Partneriaeth Bwyd y Fro, Bwyd Caerdydd


Arwain a Galluogi Newid

Ein nod: Galluogi newid ar draws y system drwy arweinyddiaeth, creu polisiâu sy'n galluogi, datblygu capasiti a thargedu cymorth i gyd-fynd ag anghenion pobl a chymunedau

	Blaenoriaeth y system	Y newid yr ydym yn ceisio ei gyflawni	Yr hyn y byddwn yn ei wneud	Beth fydd yn cael ei ystyried yn llwyddiant	Pwy fydd yn arwain
25	Arweinyddiaeth a chreu polisiâu sy'n galluogi	Bwyd Da a Symud ym mhob polisi	Gweithio gyda'n gilydd i barhau i sicrhau cyfatebiaeth rhwng Bwyd Da a Symud â chynlluniau, polisiâu a rhaglenni gwaith strategol eraill i gefnogi nodau cyffredin.	- Cyfleoedd i ymgorffori Bwyd Da a Symud mewn cynlluniau, polisiâu a rhaglenni gwaith strategol perthnasol wedi'u nodi ac wedi dechrau cael eu rhoi ar waith - Cyfleoedd i gryfhau'r gyfatebiaeth â Bwyd Da a Symud drwy'r Rheoliadau Asesu Effaith ar lechyd wedi'u nodi ac wedi dechrau cael eu rhoi ar waith	Grŵp Arwain a Galluogi Newid Bwyd Da a Symud Caerdydd, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus y Fro
26	Datblygu capasiti yn y system	Sicrhau bod ffyrdd o weithio yn bwrw gwreiddiau	Parhau i feithrin dealltwriaeth a mabwysiadu systemau sy'n gweithio	- Pecyn o hyfforddiant ac adnoddau wedi'u datblygu a'u rhannu - Dull cyson o weithio drwy systemau wedi'i fabwysiadu - Capasiti ar gyfer systemau sy'n gweithio ar draws timau a sefydliadau wedi'i gryfhau	Partneriaeth Egniol Canolbarth y De (CSAP), Chwaraeon Met Caerdydd a Thîm lechyd Cyhoeddus Caerdydd a'r Fro
27		Llunio'r negeseuon cywir	Datblygu a gweithredu Strategaeth Gyfathrebu ar gyfer Bwyd Da a Symud	- Strategaeth Gyfathrebu wedi'i chyd-ddatblygu - Dull cyson o ran iaith a fframio Bwyd Da a Symud wedi'i fabwysiadu - Straeon am newid wedi'u datblygu a'u rhannu'n eang	Tîm lechyd Cyhoeddus Caerdydd a'r Fro gyda Grŵp Gweithredu Bwyd Da a Symud (Caerdydd a'r Fro)

	Blaenoriaeth y system	Y newid yr ydym yn ceisio ei gyflawni	Yr hyn y byddwn yn ei wneud	Beth fydd yn cael ei ystyried yn llwyddiant	Pwy fydd yn arwain
28	Datblygu capasiti yn y system	Gwneud y gorau o adnoddau presennol ac adnoddau'r dyfodol	Parhau i archwilio cyfleoedd i ddiogelu adnoddau a chapasiti presennol, ochr yn ochr a'u hehangu ar gyfer Bwyd Da a Symud	- Gwaith cwmpasu wedi'i wneud ar gyfleoedd cyllido a'r rheini wedi dechrau cael eu rhoi ar waith - Cyfleoedd ar gyfer adnoddau a rennir wedi'u hystyried ac wedi dechrau cael eu rhoi ar waith	Grŵp Arwain a Galluogi Newid Bwyd Da a Symud Caerdydd, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus y Fro
29	Arweinyddiaeth a chreu dull polisi galluogol Targedu cymorth i gyd-fynd ag anghenion pobl a chymunedau	Proses gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar ddata, dysgu a mewnwleidiad	Datblygu ac ymwreiddio ymhellach ein dull o sylwi ar, deall a dangos canlyniadau ac effaith y rhaglen Bwyd Da a Symud	- Mecanweithiau i rannu data, gwersi a ddysgwyd a mewnwleidiad wedi'u cwmpasu a'u cryfhau - Dealltwriaeth gyffredin o ddata a mewnwleidiad wedi'u datblygu - Dull cyffredinol o sylwi ar, deall a dangos canlyniadau ac effaith ar gyfer y rhaglen Bwyd Da a Symud wedi'i amlinellu - Y ffordd y mae'r system yn newid wedi'i chofnodi a'i rhannu gan ddefnyddio offer fel Dadansoddi Rhwydweithiau Cymdeithasol, Mapio Sgil-effaith a straeon am newid - Cyfleoedd ar gyfer cydweithio academaidd mewn perthynas â gwaith ymchwil a gwerthuso wedi'u cwmpasu ac wedi dechrau cael eu rhoi ar waith	Tîm Iechyd Cyhoeddus Caerdydd a'r Fro gyda Grŵp Gweithredu Bwyd Da a Symud (Caerdydd a'r Fro)

	Blaenoriaeth y system	Y newid yr ydym yn ceisio ei gyflawni	Yr hyn y byddwn yn ei wneud	Beth fydd yn cael ei ystyried yn llwyddiant	Pwy fydd yn arwain
30	Targedu cymorth i gyd-fynd ag anghenion pobl a chymunedau	Cryfhau asedau cymunedol yn y cymunedau sydd â'r angen mwyaf	Archwilio'r potensial ar gyfer datblygu dull mwy strategol o ddatblygu iechyd cymunedol yng Nghaerdydd Gweithio gyda'n gilydd drwy'r prosiect Eich Lle i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf ym Mro Morgannwg	Caerdydd: - Dealltwriaeth gyffredin o ddulliau cyfredol ar gyfer datblygu iechyd cymunedol - Cyfleoedd i gryfhau wedi'u harchwilio ac wedi dechrau cael eu rhoi ar waith Bro Morgannwg: - Dealltwriaeth gyffredin o ddata, deallusrwydd a phrofiad bywyd wedi'i datblygu - Perchnogaeth ar y cyd ar draws sefydliadau, gwasanaethau a phartneriaethau wedi'i chryfhau - Bylchau a chyfleoedd i wneud pethau'n wahanol wedi'u nodi ac wedi dechrau cael eu rhoi ar waith	Cyngor Trydydd Sector Caerdydd, Chwaraeon Met Caerdydd gyda Thîm Iechyd Cyhoeddus Caerdydd a'r Fro Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus y Fro
31	Dylanwadu ar newidiadau i'r system ehangach a'u hyrwyddo	Dylanwad y tu hwnt i Gaerdydd a Bro Morgannwg	Parhau i chwilio'n rhagweithiol am gyfleoedd i ddylanwadu ac eirioli dros newid y system ehangach i gefnogi camau gweithredu lleol (<i>e.e. cyfyngiadau hysbysebu, cymhwysra ar gyfer y cynllun Cychwyn Iach, polisi cynllunio, data gwyliadwriaeth, mabwysiadu gwaith lleol yn genedlaethol a chynyddu ei raddfa</i>)	- Dealltwriaeth gyffredin o ba newid yr ydym eisiau ei hyrwyddo - Llwybrau a chyfleoedd ar gyfer dylanwad wedi'u nodi ac yn cael eu defnyddio	Grŵp Arwain a Galluogi Newid Bwyd Da a Symud Caerdydd, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus y Fro



www.goodfoodandmovement.co.uk/cy/

